**Bwrdd Plismona Cymru**
**19 Tachwedd 2018 (12:00 - 13:40)**
**Ystafell Bwyllgora A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

## 1. Yn bresennol:

**Alun Davies AC,** Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Cadeirydd)
**Rachel Maycock,** Cynghorydd Arbennig
**Jeff Cuthbert,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan.
**Arfon Jones**, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
**Dafydd Llywelyn**, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
**Alun Michael,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Mark Collins**, Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed Powys
**Carl Foulkes**, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru **dros y ffôn**
**Matt Jukes**, Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru.
**Julian Williams**, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
**Tracey Burke**, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Andrew Goodall**, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/GIG Cymru, Prif Weithredwr, Llywodraeth Cymru
**Reg Kilpatrick,** Adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Martin Swain**, Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
**Sarah Cooper**, Pennaeth y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
**Samantha Huckle**, Pennaeth Prentisiaethau, Llywodraeth Cymru
**Alison Lott,** Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
**Prif Uwcharolygydd Tony Brown,** Uned Cyswllt yr Heddlu
**Sian Curley**, Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
**Carys Morgans**, Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
**Cerith Thomas**, Cynghorydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i'r Tîm Plismona Cymru Gyfan
**Helen Hill,** Gweinyddwr Uned Cyswllt yr Heddlu

## 2. Ymddiheuriadau

**Alun Cairns AC,** Ysgrifennydd Gwladol Cymru
**David Lamberti** (Cyfarwyddwr, Plismona a Thân) cynrychiolydd Scott McPherson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Troseddau, Plismona a Thân, Swyddfa Gartref
**Amy Rees**, Cyfarwyddwyr Gweithredol HMPPS yng Nghymru
**Robert Evans,** Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan
**Chris Batchelor,** Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder Troseddol - Cymru, Swyddfa Gartref
**Debbie Wilcox,** Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## 3. Anerchiad agoriadol y Cadeirydd:

3.1 Agorodd Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y cyfarfod a gwnaeth ddiolch i bawb am ddod. Cafodd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes ei longyfarch am gael ei benodi i Heddlu Gogledd Cymru yn ddiweddar a chroesawyd ei gyfraniad dros y ffôn.


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

3.2 Roedd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes yn falch iawn o allu ymuno â'r cyfarfod dros y ffôn. Roedd ymrwymiadau gwaith blaenorol yn golygu nad oedd yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd.

## 4. <u>Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth</u>

4.1 Anfonwyd drafft o'r Cylch Gorchwyl at yr aelodau cyn y cyfarfod. Eglurodd y Cadeirydd fod y Prif Weinidog wedi gofyn iddo gadeirio'r Bwrdd gan ei fod yn gyson â'i gyfrifoldebau portffolio. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y rheini a oedd yn bresennol ar y Cylch Gorchwyl.

4.2 Gofynnodd Arfon Jones p'un a ddylai'r Cylch Gorchwyl gynnwys cyfeirnod er mwyn sicrhau bod cyswllt clir rhwng y Grŵp Hollbleidiol ar Blismona a fyddai'n helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ACau ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfarfodydd. Nododd Jeff Cuthbert nad oedd yr holl Gomisiynwyr o'r un farn a gan mai cyfarfod y Cynulliad oedd y Grŵp Hollbleidiol, doedd dim angen cynnwys cyfeirnod yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd fel cyswllt â Llywodraeth Cymru.
Awgrymodd Dafydd Llywelyn y dylid rhannu cofnodion y cyfarfod ag ACau o bosibl?
**Cam Gweithredu 1: Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cyhoeddi'r cofnodion ac y gallai Comisiynwyr wneud yr un peth pe dymunent.**

4.3 Cyfeiriodd Alun Michael at bwynt 3 (Adran ddibenion y cylch gorchwyl, pwynt 1) a thynnodd sylw at y ffaith ei fod yn bwysig i'r aelodau gytuno a deall bod angen i'r Bwrdd ganolbwyntio ar allu Llywodraeth Cymru **a'r** Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru i nodi goblygiadau'r rhaglen ddeddfwriaethol a'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus.

4.4 Cyfeiriodd Mr Michael hefyd at y ffaith fod 'ond' ar goll ym mhwynt 4 yn yr un adran a nododd bod angen addasu'r 'only'
**Cam Gweithredu 2: Cytunodd y Bwrdd ar yr addasiadau ac y dylid addasu'r cylch gorchwyl yn unol â hynny.**

4.5 Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder na'r Swyddfa Gymraeg yn bresennol. Nododd Jeff Cuthbert ei fod yn awyddus i sefydlu aelodaeth gychwynnol arfaethedig y Bwrdd, gan gynnwys adrannau o Lywodraeth y DU ac y byddai'n cysylltu â'r Swyddfa Gartref i drafod presenoldeb yr aelodau hynny mewn cyfarfodydd yn ystod y dyfodol. Roedd hyn yn bwysig o ystyried mai'r Swyddfa Gartref oedd yr Adran o Lywodraeth y DU â chyfrifoldeb dros blismona. Byddai hefyd yn ailadrodd y gwahoddiad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh Alun Michael, enwebu uwch gynrychiolydd i fod yn aelod o'r Bwrdd.

4.6 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal cyfarfodydd da a chadarnhaol yn ddiweddar â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref. Roedd y Cadeirydd yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn â'r rhyngweithio o ran glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a chytunodd y byddai'n fuddiol i gynrychiolydd o'r Swyddfa Gartref fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

**Cam Gweithredu 3: Jeff Cuthbert i gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'i haelodaeth fel rhan o'r Bwrdd.**


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

**Cam Gweithredu 4: Jeff Cuthbert i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh Alun Cairns AS, i ailadrodd y cynnig i uwch gynrychiolydd o'r Swyddfa Gartref fod yn rhan o'r Bwrdd.**
4.7 Gofynnodd Dafydd Llywelyn i'r Cadeirydd ynglŷn â'r manylion yr oedd yn bwriadu eu cyhoeddi o ran y Bwrdd Plismona.

4.8 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod drafft o ddatganiad ysgrifenedig wedi cael ei anfon at Jeff Cuthbert a'i fod yn cytuno y gellir ei rannu ag Aelodau'r Bwrdd. Y bwriad oedd cyhoeddi datganiad cyn gynted â phosibl.
**Cam Gweithredu 5: Alun Davies i rannu ei ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r Bwrdd Plismona â'r Aelodau**

## 5. Plismona yng Nghymru (gan gynnwys heriau, gofynion a chyfleoedd i gefnogi nodau ehangach Llywodraeth Cymru)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd drafodaeth ar y pwnc hwn gan ei fod yn gyfle i ddeall effaith deddfwriaeth ar Blismona a Llywodraeth Cymru a'r ffordd y gallent symud ymlaen gyda'i gilydd.

5.2 Rhoddodd Matt Jukes drosolwg lefel uchel yn tynnu sylw at Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn ein cymunedau; Terfysgaeth a Radicaliaeth; Risg/bygythiad digidol a Llinellau Cyffuriau.

5.3 Rhoddwyd rhagor o fanylion ynglŷn â'r Adain Dde Eithafol yng Nghymru a'r bygythiad yr oedd hyn yn ei achosi i bobl iau yn enwedig.

5.4 Rhoddwyd dadansoddiad o'r galw a welwyd gan wasanaethau'r Heddlu a dangosodd crynodeb o'r galwadau a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru mai dim ond 100,000 o'r 1 filiwn o alwadau a geir bob blwyddyn sy'n ymwneud â throseddau. Prif achosion galwadau ychwanegol oedd Diogelwch Cyhoeddus a oedd yn cynnwys delio â phobl sy'n agored i niwed ac Iechyd Meddwl. Mae heddluoedd yng Nghymru yn delio â dros 200 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag Iechyd Meddwl bob dydd.

5.5. O ran y galw nad yw'n ymwneud â throseddau, eglurodd y Prif Gwnstabl Jukes fod Pobl sydd ar Goll a Phlant sydd ar Goll o Gartrefi Gofal yn arbennig o heriol. O ran pobl sydd ar goll o gartrefi gofal, roedd 9 allan o 10 yn alwadau a wnaed o'r blaen. Pwysleisiodd ei fod yn briodol i'r heddlu ymwneud â'r mater os oes risg o niwed. Roedd cyswllt agos rhwng plant sydd ar goll a llinellau cyffuriau, cyffuriau/cyffuriau a welir ar ein strydoedd.

5.6 Eglurwyd bod nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau wedi cynyddu, a bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn marwolaethau sy'n ymwneud â chocên a bod hyn ar ei uchaf ers y 1900au.

5.7 Roedd troseddau treisgar yng Nghymru yn dilyn y patrwm rhyngwladol o duedd ar i lawr a oedd wedi dechrau cynyddu yn ddiweddar.

5.8 Eglurodd Mr Jukes mai'r rheswm dros drafod y materion hyn oedd am eu bod yn ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus. Cadarnhawyd bod yr heddluoedd yn cydweithio'n agos â


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaid Lleol ond eu bod am gydweithio'n agosach â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

5.9 Eglurodd Mr Jukes fod trais Domestig yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan fod trais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn risg fawr.
5.10 Dioddef twyll oedd yr hyn a oedd yn peri'r risg fwyaf a fod yn ddioddefwr trosedd.

5.11 Trafodwyd The Scottish Business Resilience Centre yn fras fel enghraifft o fodel mwy cydgysylltiedig ar gyfer Llywodraeth Cymru a Phlismona ond mae gwaith i'w wneud o hyd.

5.12 Roedd yr adroddiadau o drais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol wedi cynyddu 100% o gymharu â'r tair blynedd flaenorol. Nid oedd digon o gyfleusterau mewn gwasanaethau cyhoeddus i ddatrys a mynd i'r afael â'r galw ychwanegol ac yn ogystal â hynny, nid oedd nifer yr erlyniadau yn yr achosion hyn mor uchel ag y dylai fod.

5.13 Tynnodd Matt Jukes sylw hefyd at y goblygiadau o fod yn Brif Ddinas ac effaith a chost plismona'r nifer fawr o ddigwyddiadau cysylltiedig.

5.14 Cydnabuwyd bod heddluoedd Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth lle roedd cysylltiad amlwg â Phlismona megis Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol. Roedd cyfleoedd gwych i gydweithio yng Nghymru er enghraifft ar waith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Croesawodd pob Prif Gwnstabl y cyfle i helpu swyddogion a Gweinidogion wrth adolygu deddfwriaeth.

5.15 Cydnabuwyd plismona rheng flaen mewn cymunedau Gwledig yng Nghymru fel arfer gorau yn genedlaethol. Cafwyd enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Byrddau Gwasanaethau Lleol / partneriaid lleol ond roedd lle i wella o hyd. Cydnabuwyd bod partneriaid yn cael yr un drafferth oherwydd diffyg adnoddau.

5.16 Croesawodd y Cadeirydd y crynodeb gan ddiolch i'r Prif Gwnstabl Jukes am ei ddadansoddiad grymus. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cynnal trafodaeth arall rhwng Gweinidogion a Phrif Gwnstabliaid er mwyn helpu'r deddfwyr i ddeall y goblygiadau i blismona.
**Cam Gweithredu 6: Swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried trefnu cyfarfod perthnasol rhwng yr Heddlu, Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion a deddfwyr.**

5.17 Gofynnodd y Cadeirydd p'un a oedd cysylltiadau amlwg o ran diddordeb ehangach sefydliadau llywodraethu a phlismona yng Nghymru a ph'un a oedd cynlluniau i wella ffrydiau gwaith a oedd eisoes yn weithredol neu p'un a oedd materion yn cael eu datrys drwy gamau gweithredol.

5.18 Nododd y Prif Gwnstabl Jukes fod y cyfarfodydd yn mynd rhagddynt o hyd â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er y gallent fod yn well ac o ystyried y bygythiadau a ddisgrifiwyd yn flaenorol nid oedd digon o gysylltiadau priodol o reidrwydd ar gael ym mhob ardal.


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

5.19 Ychwanegodd Alun Michael y ffaith fod adnoddau yn her, a hyd yn oed pe bai staff yn awyddus i gymryd rhan mewn prosiect, ni fyddai'n bosibl ei gynnal os nad oedd digon ohonynt i wneud y gwaith. Rhoddodd enghraifft o'r tîm Diogelwch Cymunedol yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys 90 aelod o staff pan gafodd ei sefydlu 10 mlynedd ynghynt, ac sydd ond yn cynnwys dau aelod o staff rhan amser erbyn hyn. Roedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dechrau aeddfedu a rhoddodd enghreifftiau o waith da a wnaed yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf. Teimlai fod cysylltiad camweithredol rhwng y byrddau partneriaethau rhanbarthol a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Cytunodd i roi nodyn i'r Cadeirydd ynglŷn â'r pwynt hwnnw.
**Cam Gweithredu 7: Alun Michael i anfon nodyn at Alun Davies AC yn crynhoi'r pwynt a wnaed ynglŷn â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**

5.20 Awgrymodd Mr Michael fod angen cynnal rhagor o drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Heddlu i nodi'r diffiniad o'r term Galw Iechyd Meddwl.
Cynigiodd y Prif Gwnstabl Mark Collins, fel arweinydd cenedlaethol yr heddlu ar gyfer Iechyd Meddwl, i roi manylion am ddiffiniad y cytunwyd arno. Eglurwyd y caiff 90% o amser yr heddlu ei dreulio yn delio â galw nad yw'n ymwneud â throseddau, sy'n cynnwys Iechyd Meddwl.

5.12 Roedd Dafydd Llywelyn o'r farn bod y gwaith o ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn anghyson ac nad oedd pawb yn cyflawni eu hasesiadau anghenion. Roedd yn ymddangos bod aelodau o'r  Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dychwelyd i'w swyddi statudol. Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud mwy o ymdrech ar ôl asesu anghenion mewn ardaloedd lleol. Gwnaeth fynegi pryder ynglŷn â'r ffaith bod sawl syniad da yn cael ei gyflwyno er nad oedd partneriaid eraill yn darparu cyllid ac nad oedd unrhyw gynnydd yn sgil hynny.

5.22 Awgrymodd Dafydd Llywelyn y caiff y problemau sy'n effeithio ar gymunedau gwledig eu gorsymleiddio weithiau. Awgrymwyd y byddai'n well ystyried bod y mater yn un critigol sy'n gofyn am fodel plismona gwahanol. Roedd y Cadeirydd o blaid y syniad hwn.

5.23 Cyflwynodd Andrew Goodall ei hun i'r cyfarfod ac yn ei brofiad ef, roedd yn teimlo bod angen i sefydliadau ddatblygu'r hyn y dylent fod yn ei wneud a meithrin cydberthnasau a'u troi yn weithredoedd. Roedd angen herio'r rhagdybiaethau ynglŷn â pheidio â defnyddio cyllid ac mae llawer mwy y gellir ei wneud. Roedd hefyd yn bwysig newid y pwyslais i'r ochr atal er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau.

4.24 O ran Iechyd Meddwl, cytunodd Mr Goodall fod angen cysoni gwasanaethau cyhoeddus yn well cyn cyrraedd sefyllfa argyfyngus. Teimlai hefyd fod angen tacluso'r gydberthynas rhwng Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dangosodd ymrwymiad amlwg i gydweithio â gwasanaeth yr heddlu ar y materion mawr ac nid ar y rheini sy'n ymwneud ag iechyd yn unig.

5.26 Tynnodd Arfon Jones sylw at y ffaith fod Iechyd Meddwl yn cael ei dargedu gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy'r Grŵp Cyd-wasanaethau Brys.

5.26 Nododd Jeff Cuthbert fod cydberthnasau da rhwng Plismona a Diogelwch Cymunedol yng Ngwent. Nid oedd unrhyw feysydd o wrthdaro ar hyn o bryd rhwng  y Byrddau



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynlluniau Heddlu a Throseddu. Fodd bynnag ni ddylid cymryd yn ganiataol mai dyna fyddai'r achos o hyd ac mae angen i'r Llywodraeth fod yn ystyrlon o unrhyw achosion posibl o wrthdaro/gwrth-ddweud wrth symud ymlaen.

5.27 Tynnodd Mr Cuthbert sylw at y defnydd o nyrsys Iechyd Meddwl ar hyn o bryd mewn ystafelloedd rheoli yng Ngwent a gaiff eu hariannu gan heddlu Gwent. Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau partneriaethau a threfniadau ariannu. Teimlai hefyd y byddai'n syniad da cael Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhithwir ledled Gwent.

5.28 Teimlai Arfon Jones y dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fod yn rhan o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn enwedig wrth fwydo i mewn i gyrff rhanbarthol.
5.29 Ar ôl adolygu'r strwythur presennol a gwerthfawrogi'r sefyllfa wedi'i datganoli / heb ei datganoli, awgrymodd Matt Jukes i'r Cadeirydd y gallai'r heddlu gymryd rhan weithredol mewn unrhyw sgwrs, a rhoddwyd enghreifftiau o Drafnidiaeth, datblygu cynlluniau ar gyfer ffyniant i bawb ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

5.30 Derbyniodd y Cadeirydd y cynnig hwn a nododd yr angen i sicrhau bod strwythur ar waith i wasanaethu ein hanghenion yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Gwnaeth addo dosbarthu nodyn i egluro'r materion (gweler cam gweithredu 6), fel cyfle i ddatblygu'r sgwrs ac i sicrhau bod y strwythurau cywir ar waith.

## 6. Cyllid

6.1 Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

Cyflwynodd Jeff Cuthbert yr eitem drwy roi trosolwg o sefyllfa bresennol Plismona yng Nghymru o ran yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR). Roedd Mr Cuthbert yn aelod o'r Grŵp Llywio CSR uwch, er mwyn sicrhau y caiff y materion unigryw yng Nghymru eu cofnodi a gwnaeth gydlynu cyflwyniad gan y pedwar heddlu gan ystyried yr amgylchedd y mae heddluoedd Cymru yn gweithio ynddo sydd wedi'i ddatganoli.
Roedd llawer o waith yn mynd rhagddo i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i helpu'r saith ffrwd gwaith:

- Galw a gwydnwch
- Galluogrwydd
- Effeithlonrwydd a chynhyrchiant
- Modelau cyllido
- Dewisiadau cyllido
- Amcanion a naratif
- Rheoli'r rhaglen

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r gwaith i'r Ysgrifennydd Cartref oedd mis Rhagfyr 2018 ac nid oedd yn siŵr a fyddai hyn yn cael ei gwblhau erbyn y dyddiad hwnnw. Bach iawn fyddai unrhyw oedi.

6.2 Pensiynau'r Heddlu

Un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu cyllidebau'r Heddlu oedd yr angen i gyflogwyr gyfrannu mwy at Bensiynau'r Heddlu, yn dilyn yr hyn y cyfeiriwyd ato fel ail-werthuso gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Yn ymarferol, byddai hynny'n golygu pwysau heb ei ariannu o 4% ar gostau cyflogau pe bai'n cael ei weithredu'n llawn. Gallai hynny gael effaith fawr ar braesept yr heddlu lleol a bydd y cyhoedd yn disgwyl i'w harian gael ei wario ar wasanaethau yn hytrach na chau'r bwlch.
Roedd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona yn pwyso am ateb gan y canghellor ar ei safbwynt am bensiynau'r heddlu.

6.3 Rhoddodd Reg Kilpatrick ddiweddariad yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Martin Swain a Cyfarwyddwr Cyllid yn y Swyddfa Gartref. Eglurwyd bod y gwaith o ail-werthuso’r fformiwla ddosbarthu yn mynd rhagddo o hyd ond ei fod ar gam cynnar o hyd.

6.4 Gofynnodd Arfon Jones sut y gellir ei alw'n ailwerthusiad o bensiynau gan nad oedd wedi cael ei wneud o'r blaen.

6.5 Gwnaeth Alun Michael grynhoi'r sefyllfa gan fod y Trysorlys yn arfer llenwi'r bwlch, aeth y bwlch yn fwy ac maent wedi penderfynu mai'r heddluoedd sy'n gorfod talu amdano.

6.6 Dywedodd Dafydd Llywelyn fod y pwnc hwn yn bwynt gwleidyddol dadleuol gan ei fod yn paratoi i ariannu plismona gan drethi a godir yn lleol yn hytrach na chyllid canolog.

**Cam Gweithredu 8: Jeff Cuthbert i anfon crynodeb ynglŷn â'r sefyllfa o ran Pensiynau at Ysgrifennydd y Cabinet Alun Davies**
6.7 Nododd Mr Davies fod yr Athro Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabined dros Gyllid wedi gwneud Datganiad ar y pwnc hwn ac wedi cadarnhau y byddai'n cysylltu ag ef i drafod y mater.

6.8 Dywedodd Mr Kilpatrick wrth yr aelodau eu bod wedi achub ar y cyfle yn ystod y cyfarfod â’r Swyddfa Gartref i gwestiynu'r cyllid ar gyfer plismona Caerdydd fel Prif Ddinas a'r holl ofynion cysylltiedig yn sgil hynny. Esboniwyd bod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn rhoi cyfle i ofyn am gyllid ychwanegol ond bod angen cynnig ar sail tystiolaeth ar ei gyfer.

6.9 Eglurodd Matt Jukes bod nifer o drafodaethau wedi'u cynnal a thystiolaethau wedi'u cyflwyno, ond gwnaeth ddiolch i Mr Kilpatrick am godi'r mater.

6.10 Nododd y Cadeirydd y byddai'n hapus i Lywodraeth Cymru ddelio â'r angen am ragor o adnoddau yng Nghaerdydd, ar ôl gweld y lefel o blismona sydd ei angen ar gyfer y digwyddiadau yn y Brif Ddinas i ddiogelu pobl.

**Cam Gweithredu 9: Llywodraeth Cymru i gefnogi trafodaethau â'r Swyddfa Gartref i gael gafael ar fwy o adnoddau i Gaerdydd fel Prif Ddinas.**
Gwnaeth Matt Jukes ddiolch i'r Cadeirydd am ei gymorth ar gyfer y mater hwn.

6.11 Tynnodd Matt Jukes sylw at y ffaith na fyddai ymrwymiad y DU i roi arian newydd ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dod i Gymru o reidrwydd.

6.12 Nododd Jeff Cuthbert y byddai'n rhoi nodyn ynglŷn ag effaith hyn ym mhapur Pensiwn yr Heddlu i'r Gweinidog.

6.13 Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
Rhoddodd Alun Michael ddiweddariad yn dilyn cyfarfod diweddar rhwng Martin Swain a Chris Gittens, DCC Richard Lewis, swyddogion gweithredol yr heddlu a chynrychiolwyr rhanbarthol.
Yn dilyn y cyfarfod, cytunwyd y byddai gwaith yn cael ei gwblhau i sicrhau perthnasedd y gwahanol ardaloedd y mae'r rhaglen yn gyfrifol amdanynt a gwaith arall i nodi'r effeithiau gweithredol.
Awgrymodd Mr Michael y gellid trafod y ddau ddarn o waith yn y Bwrdd wedi iddynt gael eu cwblhau.

6.14 Nododd y Cadeirydd ei fod yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r AWCSLP a dangosodd ddiddordeb mewn deall pa fesurau atal oedd ar waith ar gyfer plant ifanc.

## 7. Troseddau Cyfundrefnol Difrifol / Llinellau Cyffuriau

7.1 Cafodd papur ategol ei ddosbarthu cyn y cyfarfod a thynnodd Matt Jukes sylw at y pwyntiau allweddol.

7.2 Nododd y pwyntiau canlynol a fyddai'n helpu'r heddlu i ymateb yn y maes hwn, sef:

1) Dylai fod cysylltiad clir rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn helpu i fynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol a llinellau cyffuriau.
2) Llywodraeth Cymru i ariannu gwerthusiad o Ganolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH) a rhoi mewnbwn mewn ffordd gyson ledled Cymru.
3) Llywodraeth Cymru i roi trosolwg ar y cyd o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol a chanolbwyntio arnynt yn yr un modd ag y mae'n delio â Gwrthderfysgaeth.
4) Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid wedi cytuno i ystyried yr opsiwn o gael Uned Lleihau Trais i Gymru ac i wahodd Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r gwaith hwn. (gweler y ddogfen amgaeedig)

7.3 Gwnaeth y Cadeirydd gydnabod y lefel o broffesiynoldeb ym mhedair ardal yr heddlu ac ansawdd y gwaith a gaiff ei gwblhau ar gyfer Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

7.4 Roedd Arfon Jones yn ystyrlon o'r ffaith nad oes gan heddluoedd ddealltwriaeth glir o bwy sy'n llenwi'r bwlch pan gaiff grwpiau troseddau cyfundrefnol eu chwalu ac roedd yr union ddarlun o hyn a'r lefel o drais yn aneglur. Roedd angen dealltwriaeth well o'r maes hwn.

7.5 Cyfeiriodd Mark Collins at enghraifft ddiweddar yn Nyfed-Powys o atafaelu llawer o gyffuriau anghyfreithlon yn yr ardal hon a phwysleisiodd ei fod yn fater sy'n effeithio ar bob uned gorchymyn sylfaenol yng Nghymru. Mae'n broblem sy'n effeithio ar gymunedau trefol a gwledig.


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

**Cam Gweithredu 10: Caiff y pedwar pwynt uchod a godwyd gan y Prif Gwnstabl Jukes eu hystyried gan swyddogion Llywodraeth Cymru i weld sut y gallant gael eu datblygu.**

## 8. Diwygio'r Gwasanaeth Prawf ac Adsefydlu Cymunedol

8.1 Doedd dim digon o amser yn ystod y cyfarfod i drafod yr eitem hon ar yr agenda. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trafod unrhyw faterion ag Amy Rees yn uniongyrchol.

8.2 Eglurodd Alun Michael fod gan bedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddiddordeb mawr yn natblygiadau'r System Cyfiawnder Troseddol a'u bod wrthi'n cynnal trafodaeth ag Amy Rees ynglŷn â chydgomisiynu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru. Roedd CLlLC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhan o'r trafodaethau.

8.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod y gwaith yn mynd rhagddo o hyd i gael canolfan i ferched yng Nghymru. Mae'r sgyrsiau yn mynd rhagddynt o hyd gyda Senedd yr Alban.

**Cam Gweithredu 11: Roedd angen cynnal sgwrs ehangach rhwng Ysgrifennydd y Cabinet Alun Davies ac Andrew Goodall i drafod sut y gellir rheoli canolfan o'r fath, gan mai Llywodraeth Cymru a fyddai'n ei rheoli.**

## 9. Cynllunio wrth gefn ar gyfer Brexit

9.1 Nododd y Cadeirydd ei fod yn rhagweld y bydd materion yn dod yn gliriach wrth i ni symud ymlaen i 29 Mawrth 2019 ac roedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol deall trefniadau'r heddlu.
Mynegodd y Cadeirydd ei bryder am gymunedau amaethyddol yng nghanolbarth Cymru a'r effeithiau economaidd ehangach y gall hyn eu hachosi.
**Cam Gweithredu 12: Cytunwyd y byddai'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Heddluoedd yn parhau i fynd rhagddynt er mwyn nodi trefniadau pob heddlu wrth i'r sefyllfa ynghylch Brexit ddod yn gliriach.**

9.2 Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr anawsterau sy'n codi wrth rannu gwybodaeth o sawl ffynhonnell, ond o San Steffan yn benodol. Er nad yw'r cynnwys yn arbennig o ddadleuol, roedd yn debygol o fod yn sensitif yn wleidyddol.

9.3 Eglurodd y Cadeirydd fod ganddo gyfarfod nes ymlaen y prynhawn hwnnw ac anogodd yr aelodau i rannu unrhyw achosion ag ef, lle'r oedd cliriad diogelwch yn rhwystro gwaith cynllunio effeithiol, er mwyn iddo allu eu trafod ar lefel uwch.
**Cam Gweithredu 13: Dylid dychwelyd unrhyw enghreifftiau o'r ffordd y mae materion sy'n ymwneud â chliriad diogelwch yn rhwystro gwaith cynllunio effeithiol cyn 4pm ar ddiwrnod y cyfarfod (19/11/18)**

## 10. Agenda'r dyfodol

10.1 Gwnaeth y cadeirydd ddiolch i'r holl aelodau am ddod i'r cyfarfod a chyfrannu ato



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

10.2 Awgrymwyd y gellid cynnal y cyfarfod nesaf yn Wrecsam

**Cam Gweithredu 14: Ystyried cynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Wrecsam**

Daeth y cyfarfod i ben am 13:40

## Tabl gweithredu - Camau gweithredu o gyfarfod 19/11/2018

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| 1) Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cyhoeddi'r cofnodion ac y gallai Comisiynwyr wneud yr un peth pe dymunent. | Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r PLU |
| 2) Cytunodd y Bwrdd ar yr addasiadau ac y dylid addasu'r cylch gorchwyl yn unol â hynny. | CT/TB |
| 3) Jeff Cuthbert i gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'i haelodaeth fel rhan o'r Bwrdd. | JC |
| Jeff Cuthbert i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh Alun Cairns AS, i ailadrodd y cynnig i uwch gynrychiolydd o'r Swyddfa Gartref fod yn rhan o'r Bwrdd. | JC |
| Alun Davies i rannu ei ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r Bwrdd Plismona â'r Aelodau | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 6) Swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried trefnu cyfarfod perthnasol rhwng yr Heddlu, Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion a deddfwyr. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 7) Alun Michael i anfon nodyn at Alun Davies AC yn crynhoi'r pwynt a wnaed ynglŷn â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | AM |
| Jeff Cuthbert i anfon crynodeb ynglŷn â'r sefyllfa o ran Pensiynau at Ysgrifennydd y Cabinet Alun Davies | JC |
| Llywodraeth Cymru i gefnogi trafodaethau â'r Swyddfa Gartref i gael gafael ar fwy o adnoddau i Gaerdydd fel Prif Ddinas. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| 10) Caiff y pedwar pwynt a godwyd gan y Prif Gwnstabl Jukes sy'n ymwneud â SOC eu hystyried gan swyddogion Llywodraeth Cymru i weld sut y gallant gael eu datblygu.<br>• Dylai fod cysylltiad clir rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn helpu i fynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol a llinellau cyffuriau.<br>• Llywodraeth Cymru i ariannu gwerthusiad o ganolfannau diogelu amlasiantaeth a rhoi mewnbwn mewn ffordd gyson ledled Cymru. | Swyddogion Llywodraeth Cymru |



Not protectively marked - Dim marciau diogelwch

| | |
|---|---|
| • Llywodraeth Cymru i roi trosolwg ar y cyd o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol a chanolbwyntio arnynt yn yr un modd ag y mae'n delio â Gwrthderfysgaeth.<br>• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid wedi cytuno i ystyried yr opsiwn o gael Uned Lleihau Trais i Gymru ac i wahodd Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r gwaith hwn. (gweler y ddogfen amgaeedig) | |
| 11) Mae angen cynnal sgwrs ehangach rhwng Ysgrifennydd y Cabinet Alun Davies ac Andrew Goodall i drafod sut y gellir rheoli canolfan o'r fath, gan mai Llywodraeth Cymru fyddai'n ei rheoli. | AD/ AG |
| Cytunwyd y byddai'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Heddluoedd yn parhau i fynd rhagddynt er mwyn nodi trefniadau pob heddlu wrth i'r sefyllfa ynghylch Brexit ddod yn gliriach. | Pob aelod - gyda chymorth PLU |
| 13) Dylid dychwelyd unrhyw enghreifftiau o'r ffordd yr oedd materion sy'n ymwneud â chliriad diogelwch yn rhwystro gwaith cynllunio effeithiol cyn 4pm ar ddiwrnod y cyfarfod (4/19/11) | Pob aelod |
| Ystyried cynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Wrecsam | Cadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan a Chadeirydd Grŵp y Prif Swyddogion. |


Not protectively marked - Dim marciau diogelwch